

Cofion a Chyfarchion

Diolch i bawb sydd eisoes wedi ymateb ac wedi dychwelyd eich ffurflen Diogelu Data. Byddwn yn falch o dderbyn y ffurflenni sy'n weddill mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda, ond ers Mai 1af rydym wedi dechrau gweithredu'r drefn newydd o rannu gwybodaeth. Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Glenys Jones (Peniel) a Sian E. Jones (Llansannan) a'r teulu yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Morfudd, ddiwedd yr wythnos hon. Cyflwynwn hwy, ynghyd â phawb arall sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y flwyddyn a fu, i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddiwn y bydd Duw yn cysgodi drosoc ac yn gymorth i chi yn eich galar a'ch hiraeth.

Yn yr un modd, mae rhai o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac fe'u cyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw. Anfonwn ein cofion at Arwyn Davies (Llansannan) ac eraill o'n plith sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, ond mae'n dda cael adrodd fod Selwyn Davies (Nantglyn) a Mali Elwy (Llansannan) adref o'r ysbyty erbyn hyn. Gweddiwn y cânt oll adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Nansi Jones (Henllan) ar ddathlu pen-blwydd arbennig!

I ddod

- **SESIWN HYFFORDDIANT DIOGELU GRWPIAU BREGUS** – Mewn eglwysi lle cynhelir gwaith gyda phlant/ieuenctid/oedolion bregus, mae'n RHAID i athrawon Ysgol Sul, gwirfoddolwyr clybiau plant a ieuenctid, ymwelwyr bugeiliol, blaenoriaid ac ymddiriedolwyr dderbyn gwiriad trwy lenwi ffurflen DBS, a hefyd i fynychu hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus. Mae sesiwn hyfforddiant wedi'i drefnu gan Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yng Nghapel Trefnant nos Fawrth, Mehefin 11eg rhwng 6.30 a 9.00. Mae'r sesiwn yn agored i bawb ond yn hanfodol i unrhyw un sy'n ffitio'r categori uchod, ac sydd heb fynychu hyfforddiant o'r blaen.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (22^{ain}), os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Mai 12^{fed} a 19^{eg}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso i bawb ohonoch i'n gwasanaethau heddiw. Wrth i nifer o oedfaon Cymorth Cristnogol gael eu cynnal ar draws Bro Aled, diolchwn fod gennym Dduw sydd â gofal dros ei bobl (1 Pedr 5:7), a gofynnwn am ei gymorth Ef i allu ymateb yn gariadus trwy air a gweithred er mwyn cynorthwyo eraill mewn angen. (1 Ioan 3:18)

“Dwi'n difaru dweud unrhyw beth!” Brawddeg yr ydych wedi ei chlywed a'i dweud droeon dwi'n siŵr, ond beth mae edifeirwch yn ei olygu pan mae'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Beibl? Mae'n llawer mwy na dim ond teimlo'n ddrwg am yr hyn yr ydym wedi ei wneud, ond mae gwir edifeirwch yn sicr yn cynnwys elfen o dor-calon. Yn Feiblaidd, golyga edifeirwch ein bod yn syrthio ar ein bai, a chrefu ar Dduw ein bod am newid cyfeiriad. Yn hytrach na pharhau mewn patrwm o bechod ac anufudd-dod, mae edifeirwch yn brofiad poenus o sylweddoli mor hyll o flaen Duw sanctaidd yw'r hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud/ dweud/ meddwl, ac nad ydym am ei wneud mwyach. Wrth edifarhau, mae rhywun yn troi at Grist yn doredig oherwydd ein pechod (Salm 51:17), ac yn ymddiried ynddo Ef am faddeuant a nerth o'r newydd trwy'r Ysbryd Glân.

Dylai edifeirwch fod yn ganolog i fywyd pob Cristion felly. Dyma fan cychwyn Iesu wrth iddo ddechrau ar ei weinidogaeth trwy gyhoeddi “Edifarhewch a chredwch yr Efengyl” (Marc 1:15). A dyna hefyd y model o fywyd a welwn yn y Testament Newydd lle mae'r Cristion yn gyson yn cael ei argyhoeddi trwy'r Ysbryd Glân o'i bechodau, cyn cael ei dywys dro ar ôl tro at y Ceidwad – yr Un a wnaed yn bechod yn ei le (2 Corinthiaid 5:21). Fel y mae cerddwyr mewn niwl angen map a chwmpawd i'w cadw ar y trywydd cywir, mae'r Cristion yn ddibynnol ar Air Duw a gwaith mewnol yr Ysbryd rhag mynd ar gyfeiliorn.

Wrth i ni feddwl mor allweddol yw edifeirwch, mae'n gwneud synnwyr pam fod cymaint o wrthdaro wedi digwydd rhwng Iesu a phobl hunangyfiawn – dyma'r union rai nad oedd yn barod i wrando ar Grist nac edifarhau. Ond rhag i ni ddigalonni wrth ystyried ein cyflwr ni'n hunain, cofiwn mai rhodd hyfryd gan Dduw i'w bobl yw edifeirwch, ac er mor boenus y gall fod, mae'r Apostol Paul yn annog Cristnogion Corinth trwy ddweud: ‘Mae'r math o dristwch mae Duw am ei weld yn gwneud i bobl newid eu ffyrdd a chael eu hachub. Dydy hynny byth yn rhywbeth i'w ddifaru!’ (2 Corinthiaid 7:10 Beibl.net)

Rhodri

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 12^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 yr hwyr. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.
- Iau – 16^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 17^{eg} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Gwener – Sul Mai 17^{eg} – 19^{eg} ➤ **Miri Mai (8–12 oed)** yng Ngholeg y Bala. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Gallwch archebu lle ar-lein: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg.
- Sul nesaf – 19^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 22^{ain} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Iau – 23^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Sul canlynol – 26^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd y Parch. Ddr Andras Iago yn pregethu.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 12^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Llanefydd am 9.30 y bore. Croeso cynnes i bawb.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.30 y bore.
- Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 y bore a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Henllan am 11.00 y bore a bydd cinio cynnil i ddilyn yn y Neuadd.
- Gwener – 17^{eg} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (12^{fed})**, os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 19^{eg} ➤ Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 9.30 y bore a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir Sasiwn Plant yng Nghapel **Henllan** am 2.00. Bydd Mrs Gwawr Meirion yn arwain y canu ac yn rhoi sgwrs i'r plant. Gwneir casgliad arbennig at elusen Achub y Plant sy'n dathlu eu canmlwyddiant penwythnos y Sasiwn.
- Sul canlynol – 26^{ain} ➤ Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yno am 11.00.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 12^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Llanfair am 10.00.
- Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd cinio cynnil i ddilyn. Fe wneir casgliad tuag at waith Cymorth Cristnogol.
- Cynhelir Oedfa Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Sant Sannan am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul.
- Mawrth – 14^{eg} ➤ Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher – 15^{fed} ➤ Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (12^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 19^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 21ain ➤ Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan o 1.30-3.30 pryd y cawn gwmni Mair Dowell, cyn uwch nyrs yn Ysbyty Glan Clwyd. Croeso cynnes i bawb. Hefyd, rydym yn bwriadu mynd am de prynhawn i'r Grousemoor yn Llandegla ar Mehefin 12^{fed} – enwau i Sian erbyn Mai 18^{fed}, os gwelwch yn dda.
- Mercher – 22^{ain} ➤ Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (19^{eg})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 26^{ain} ➤ Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 y bore a'r Ysgol Sul yn dilyn am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llansannan am 10.00 a bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yno am 11.00.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00.
- Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 19^{eg} ➤ Cynhelir Sasiwn Plant yng Nghapel **Henllan** am 2.00. Bydd Mrs Gwawr Meirion yn arwain y canu ac yn rhoi sgwrs i'r plant. Gwneir casgliad arbennig at elusen Achub y Plant sy'n dathlu eu canmlwyddiant penwythnos y Sasiwn.
- Sul canlynol – 26^{ain} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd y Parch. David Owens hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.